

## Prosiect Teithwyr i'r Cymru - European Travellers to Wales Project

Rhyl	Alphonse Esquiros	c. 1850s	L'Angleterre et la vie anglaise: XXVI. Le sud du Pays de Galles et l'industrie du fer. Carmarthen, les eisteddfodau et les Iron-Works de Merthyr Tydfil
------	-------------------	----------	---

“Y Rhyl, tref glan y môr wrth y fynedfa i’r enwog Ddyffryn Clwyd: 20 milltir o hyd, 10 milltir o led, gyda mynyddoedd a bryniau ar y ddwy ochr iddo. Mae’r Rhyl wedi tyfu llawer yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, diolch i burdeb yr aer rydych yn ei anadlu yno a’r tirweddau rhagorol o gwmpas y dref, i’r môr, i gadernid y traethau tywod ac i’r holl fanteision bydd ymdrochwyr yn eu ceisio. Mae yno lety wedi’i ddodrefnu ar gyfer pob piced, llyfrgelloedd neu ystafelloedd darllen, ystafelloedd biliards ac ati. Mae dyffrynnoedd Afon Clwyd ac Afon Elwy’n cynnig golygfeydd hardd i arlunwyr tirwedd. Bydd pysgotwyr yn darganfod yn y ddwy afon gyfle rhagorol i arfer eu crefft. Amgylchynir y Rhyl â filâu, maenordai a pharciau. Yn y pellter, gellir gweld grŵp gwych o fynyddoedd, gyda choron Tywysogaeth Cymru yn teyrnasu uwchlaw iddynt, sef copa digyffelyb yr Wyddfa.”

“Rhyl, seaside town situated at the entrance to the famous Clwyd Valley: 20 miles long, 10 miles wide, and bordered on both sides by mountains and hills. Rhyl has grown a lot in the last few years, thanks to the purity of the air you breathe there and the magnificent landscapes that surround it, to the

sea, to the firmness of the sandy beaches and all the advantages that bathers seek. It has furnished accommodation for every budget, libraries and reading rooms, billiard rooms etc. The valleys of the two rivers Clwyd and Elwy provide painters with beautiful viewing points. Anglers will find in these two rivers an excellent opportunity to practice their skill. Rhyl is surrounded by beautiful villas, manor houses and grounds. In the distance a majestic group of mountains can be seen, above which the crown of the principality of Wales stands out: the incomparable summit of Snowdon.”

“Rhyl ist eine kleine Küstenstadt, am Eingang des berühmten Clwyd Tales gelegen: 20 Meilen lang, 10 Meilen breit und auf beiden Seiten von Bergen und Hügeln begrenzt. Rhyl ist in den letzten Jahren stark gewachsen, dank der reinen Luft, die man dort atmet und der umgebenden, atemberaubenden Landschaft, der Qualität der Sandstrände und all der Annehmlichkeiten, die die Badenden dort suchen und finden. Es gibt möblierte Unterkünfte für jedes Budget, Bibliotheken und Lesesäle, Billardräume usw. Die Täler der beiden Flüsse Clwyd und Elwy bieten Malern wunderschöne Aussichtspunkte. Angler finden in den beiden Flüssen hervorragende Möglichkeiten, ihre Fähigkeiten anzuwenden. Rhyl ist umgeben von herrlichen Villen, Herrenhäusern und Ländereien. In der Ferne kann man majestätische Berge sehen, über denen die Krone des Fürstentums Wales steht: der unvergleichliche Gipfel des Snowdon.”

“Rhyl, ville de bains, située à l’entrée de la célèbre vallée de la Clwyd, qui mesure 20 milles de longueur, sur 10 milles environ de largeur, et qui se

trouve bordée des deux côtés par des montagnes et des collines. Rhyl s'est beaucoup accrue depuis quelques années, grâce à la pureté de l'air que l'on y respire, aux magnifiques paysages qui l'entourent, à la mer, à la fermeté des sables et à tous les avantages que recherchent les baigneurs. On y trouve des logements garnis pour toutes les bourses, des bibliothèques ou cabinets de lecture, des salles de billard, etc. Les vallées des deux rivières Clwyd et Elewy fournissent aux paysagistes de beaux points de vue. Les pêcheurs à la ligne trouvent aussi dans ces deux cours d'eau une excellente occasion d'exercer leur adresse. Rhyl est entourée de belles villas, de manoirs, de parcs. Le regard y embrasse au loin de majestueux groupes de montagnes, au-dessus desquelles se détache la couronne de la principauté de Galles, l'incomparable sommet du Snowdon."

**Prosiect Teithwyr i'r Cymru - European Travellers to Wales Project**

Rhyl	Arthur d'Arcis	c. 1866	Voyage au nord du pays de Galles
------	----------------	---------	----------------------------------

"Tref gyda 7,264 o drigolion yw'r Rhyl, wedi ei hadeiladu ar ffurf reolaidd gyda strydoedd eang, syth a thai sydd yn isel ond yn ddigon braf yr olwg ac mewn trefn eithaf da ar y tu mewn. Neuadd y dref goeth yr olwg, marchnad dan do, eglwys Gatholig bert, eglwys Anglicanaidd hardd a sawl capel ar gyfer y Wesleaid ac ati yw'r prif adeiladau. Mae sawl siop fawr dda a nifer o siopau

llai a stondinau'n caniatáu i chi sicrhau cyflenwad o bethau angenrheidiol a hyd yn oed moethau. ... Dim ond yn ystod y tymor ymdrochi, sy'n dechrau ganol Mehefin ac yn gorffen ym mis Hydref, mae'r Rhyl yn deffro. Mae'r traeth ymhlith y prydferthaf y gallech ei ddymuno ac nid oes dim yn beryglus amdano. O ganlyniad, mae'n llawn o blant o bob dosbarth mewn cymdeithas, a dylid nodi nad oes dim canlyniadau negyddol i'r cymysgu rhyfeddol hwn, achos nid yw'r plant Seisnig na'r plant Cymreig yn gwybod beth yw gair sarhaus. Os ydych am aros am amser hir, y peth gorau yw rhentu swît mewn gwesty, sy'n cynnwys ystafell fyw sy'n gweithredu fel ystafell fwyta a hynny o ystafelloedd gwely sydd eu hangen arnoch. Rydych yn cytuno ar bris, hyn a hyn yr wythnos, am y llety, y gwasanaeth, y goleuo a'r hawl i goginio unrhyw fwyd yr ydych yn rhydd i'w brynu drosoch eich hun. Gyda threfniant hynod ymarferol ac economaidd felly, heblaw eich bod yn mynnu bod ar y Parêd, gallwch fod yn rhydd o bob pryder ynghylch gwaith tŷ ac anghyfleusterau bywyd mewn gwesty. Nid oes prinder gweithgareddau hamdden. ... Rhaid i mi sôn am daflwr llais a oedd yn sefyll ar ysgol gyda dau byped ar ei lin yn cynrychioli hen ŵr doniol a gwladwr cyfrwys, ac yn gwneud iddynt ddweud y pethau mwyaf digrif wrth ei gilydd heb arlliw o symudiad yn ei wyneb a fyddai'n dangos mai yntau oedd yn siarad."

"Rhyl is a town of 7,264 inhabitants, built in regular fashion, with wide, straight streets and houses that are low but quite good to look at and rather well laid out inside. An elegant looking town hall, a covered food market, a pretty Catholic church, a fine Anglican church and several chapels for Wesleyans etc. These are the principal buildings. Some good shops and a number of boutiques and workshops allow you to stock up on necessities

and even luxuries. ... Rhyl only comes to life during the bathing season, which starts in mid-June and ends in October. The beach is one of the most beautiful you could wish for and offers not the slightest danger.

Consequently it is teeming with children of all classes of society and, let it be noted, this great mixture has no negative consequences, because the English children and the Welsh children do not even know what an offensive word is.

If you want to stay a long time it is best to rent a hotel suite including a living room that serves as dining room, and whatever number of bedrooms that you require. You agree on a price, so much per week, for the

accommodation, the service, the lighting and the right to cook any food that you are free to buy yourself. Thanks to this very practical and economical arrangement, unless you insist on being on the Parade, you can be free from the worries of housework and avoid the inconveniences of life in a hotel.

There is no lack of recreational activities. ... I must mention a ventriloquist who, perched on a ladder with two puppets on his lap representing a funny old fellow and a cunning countryman, makes them say the most hilarious things to each other without a hint of movement in his face that would indicate that he was doing the talking.”

“Rhyl ist eine Stadt mit 7.264 Einwohnern, in regelmäßigen Formen erbaut, mit breiten, geraden Straßen und Häusern, die niedrig, aber angenehm anzusehen und innen gut geschnitten sind. Ein elegant aussehendes Rathaus, ein überdachter Marktplatz, eine hübsche katholische Kirche, eine ebenso hübsche anglikanische Kirche und mehrere Kapellen für Methodisten usw. Dies sind die Hauptgebäude. Einige gute Geschäfte und eine Reihe Boutiquen und Werkstätten erlauben es einem, Notwendigkeiten und sogar Luxusgüter

einzukaufen. ... Rhyl lebt auf, wenn die Badesaison beginnt, die von Mitte Juni bis Oktober dauert. Den Strand könnte man sich schöner nicht wünschen und er ist völlig gefahrenfrei. Folglich ist er voller Kinder aus allen Gesellschaftsschichten und es muss gesagt werden, dass diese Mischung keinerlei negative Nebenwirkungen hat, da die englischen und walisischen Kinder nicht einmal wissen, was ein beleidigendes Wort ist. Will man hier für längere Zeit bleiben, ist es empfehlenswert, eine Hotelsuite zu mieten, die über ein Wohn- und Esszimmer und die notwendige Zahl von Schlafzimmern verfügt. Es wird sich über einen Preis verständigt, für die Unterkunft, die Dienstleistungen, Beleuchtung und die Bereitschaft das Essen anzurichten, das man selbst eingekauft hat. Dank dieses praktischen und ökonomischen Arrangements ist man von den Sorgen befreit, die die Hausarbeit mit sich bringt, und vermeidet gleichzeitig die Unannehmlichkeiten, des Lebens im Hotel. Es besteht kein Mangel an Freizeitaktivitäten. ... An dieser Stelle muss ich von einem Bauchredner berichten, der, auf einer Leiter sitzend, mit zwei Puppen auf dem Schoß, eine Szene zwischen einem alten Mann und einem gerissenen Bauern vorführte. Er ließ die beiden die lustigsten Dinge sagen, ohne dabei einen Muskel im Gesicht zu bewegen, der darauf hätte schließen lassen, dass in Wirklichkeit er sprach."

"Rhyl est une ville de 7264 habitants, bâtie régulièrement, aux rues larges et droites, aux maisons basses mais d'assez bonne apparence et fort bien distribuées à l'intérieur. Un hôtel de ville d'un aspect élégant, une halle, une mignonne église catholique, une belle église anglicane et plusieurs chapelles des sectes de Wesley, etc., voilà ses principaux édifices. De bons magasins et une quantité de boutiques et d'échoppes permettent de se fournir du

nécessaire et même du superflu. ... Rhyl ne s'anime que pendant la saison des bains qui commence à la mi-juin et finit en octobre. La plage est l'une des plus belles que l'on puisse voir et n'offre pas le moindre danger. Aussi fourmille-t-elle d'enfants de toutes les classes de la société et, détail à noter, cette promiscuité n'a pas le moindre inconvénient, car les enfants anglais et gallois ne savent pas ce que c'est qu'un mot malsonnant. Quand on veut faire un long séjour il vaut mieux louer un appartement composé d'un salon faisant fonction de salle à manger et du nombre de chambres à coucher que l'on désire. On convient d'un prix, tant par semaine, pour le logement, le service, l'éclairage et le droit de faire cuire les aliments que l'on est libre d'acheter soi-même. Grâce à cet arrangement très pratique et très économique, à moins qu'on ne tienne à s'installer sur la Parade, on peut s'affranchir des soucis du ménage ou échapper à l'ennui de la vie d'hôtel. Les distractions ne maquent pas. ... Je ne peux faire moins que de mentionner un ventriloque qui perché sur une échelle et ayant sur ses genoux deux fantoches représentant un vieux loustic et un malin paysan, leur faisait tenir les propos les plus désopilants sans qu'un seul tressaillement de sa figure dénotât que c'était lui qui parlait."

## Prosiect Teithwyr i'r Cymru - European Travellers to Wales Project

Rhyl

Édouard Gachot

c. 1900

En pays de Galles

“Mae’r Rhyl yn draeth prysur iawn. Rhennir y dref yn ddwy ardal, gyda chae sydd rhwng y ddwy faestref yn gweithredu fel maes croce. Mae gan bob tŷ, o friciau coch, ei ardd ei hun. Mae’r strydoedd yn fwy fel ffyrdd prysur iawn yn llawn o grwpiau o ymdrochwyr.”

“Rhyl is a very busy beach. Split into two areas, a field that separates the two suburbs acts as croquet grounds. Each house, in red brick, has its own garden. The streets are more like very busy routes filled with colonies of bathers.”

“Rhyl ist ein sehr belebter Strand. Er ist in zwei Teile geteilt und das Feld, das die beiden Teile voneinander trennt, wird als Krocketplatz genutzt. Jedes Haus, aus rotem Backstein erbaut, hat einen eigenen Garten. Die Straßen sind mit Schwärmen von Badegästen gefüllt.”

“Rhyl est une plage très fréquentée. Coupée en deux quartiers, un pré qui sépare les deux faubourgs sert de lice aux joueurs de croquet. Chaque maison, en briques rouges, a son jardin. Les rues sont plutôt des chemins très fréquentés par une colonie de baigneurs.”



